# Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Gâr Gweithredu o ran y Gymraeg – 2018/19

## Cyflwyniad

Dyma Adroddiad Blynyddol o waith Cyngor Sir Gâr ar gyfer 2018/19. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y drydedd flwyddyn o weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg. Mae adroddiad eleni yn dilyn yr un fformat a llynedd gyda disgrifiadau o weithgareddau wedi'u clystyru fesul dosbarth o Safonau, gan fod y gwaith o sefydlu systemau i gydymffurfio â'r Safonau unigol wedi ei wneud, a llawer o'r gwaith o gydymffurfio'n parhau'n gyson a heb fod angen ei ailadrodd.

Yn ystod 2018/19, mae'r Aelod Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am ddatblygu'r iaith Gymraeg wedi arwain a sicrhau cynnydd pellach o ran gwaith mewnol y Cyngor yn ogystal ag adeiladu ar bartneriaethau gyda chyrff eraill er mwyn hybu'r Gymraeg ar draws Sir Gâr.

Mae Panel Ymgynghorol yr Aelodau ar y Gymraeg wedi parhau i dderbyn diweddariadau cyson o ran y Safonau, ac wedi parhau a'i rôl allweddol wrth gynnig cyngor, monitro cynnydd a galw am dystiolaeth o'r cynnydd hwnnw gan adrannau penodol o fewn y Cyngor.

Mae'r Fforwm Sirol, sy'n parhau i gael ei arwain gan y Cyngor ac yn cynnwys cynrychiolaeth o fudiadau hyrwyddo iaith y sir, yn ogystal â chyrff cyhoeddus sydd â swyddogion iaith, hefyd wedi parhau gyda'i rôl o ddatblygu rhaglen o hybu'r Gymraeg yn y sir ac wedi cyfrannu'n helaeth i gydgynllunio ar gyfer gweithredu Cynllun Gweithredu Strategaeth Hybu Sir Gâr, yn unol â'r Safon Hybu.

Gwnaed llawer iawn o waith cyfathrebu mewnol i'r Cyngor eto yn ystod 2018-19 gan barhau i drosglwyddo negeseuon i staff wrth fynychu sioeau teithiol ar draws y sir mewn gwahanol adeiladau er mwyn cyfarfod wyneb yn wyneb â staff a thrafod unrhyw faterion oedd yn codi. Manteisiwyd ar y cyfle i hyrwyddo'r clipiau sain, rhestrau geirfa, y fideos a thempledi newydd ynghyd â hyrwyddo'r amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael i ddysgu neu wella sgiliau Cymraeg.  Bu negeseuon cyson hefyd ym mhrif gylchlythyron yr Awdurdod ac mewn rhai cylchlythyrau adrannol.

Gwelwyd ffrwyth blwyddyn o waith yr Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu o ran yr Iaith Gymraeg wrth i statws ac ymwybyddiaeth o ddarpariaeth y Ganolfan Genedlaethol gynyddu'n sylweddol. Yn ystod y flwyddyn bu cyfle i gydweithio gyda'r Ganolfan ar ystod o gyfleoedd i staff, gan gynnwys cyfleoedd preswyl er mwyn gloywi Iaith. Mae'r adborth o'r cyfleoedd hynny wedi bod yn bositif iawn, gyda'r staff yn nodi newid defnydd Iaith yn y gweithle mewn elfennau megis cynnal cyfarfodydd gyda chydweithwyr, cymryd cofnodion a chynnal asesiadau.

Cynhaliwyd hyfforddiant i fentoriaid ar draws y cyngor er mwyn cefnogi dysgwyr ac mae'r drefn o gytuno a gosod Cytundebau Dysgu ar gyfer swyddogion newydd wedi ei sefydlu. Datblygir Cytundebau Dysgu mewn partneriaeth â rheolwyr llinell, Dysgu a Datblygu ac Adnoddau Dynol ar gyfer aelodau newydd o staff nad ydynt yn cwrdd â lefel ieithyddol swydd pan benodir hwy. Mae'r modiwl ar-lein 'Croeso Cymraeg Gwaith' wedi bod yn allweddol i ni fel cyngor wrth gefnogi staff sydd ar ddechrau'r daith o ddysgu Cymraeg a hyd yn hyn, mae 328 o staff wedi cofrestru i ddilyn y modiwl. Rydym yn cefnogi'r staff i gwblhau'r modiwl deg awr ar-lein ac yn awyddus i weld y niferoedd sy'n cwblhau yn cynyddu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae pawb sy'n cwblhau yn derbyn pecyn llongyfarch oddi wrth y Ganolfan ac mae'r cofnod hyfforddi Adnoddau Dynol yn cael ei ddiweddaru.

Gwnaed gwaith datblygu yn ystod 2018-19 gydag Arweinwyr Iaith y Cyngor. Bellach, mae tua 45 o Arweinwyr Iaith yn gweithio i sicrhau fod ein gwasanaethau'n cael eu cynnal yn Gymraeg a bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo o fewn y gweithle, ac mae trefniadau ar y gweill i hyfforddi ac ymsefydlu mwy o Arweinwyr Iaith o adrannau amrywiol. Mae cryn botensial i ddatblygu gwaith y grwpiau hyn, ac i gydlynu cydweithio rhyngddynt yn ogystal. Bydd angen ystyried sut i adeiladu ar y gwaith drwy gynnig ôl-ofal addas o'r adran bolisi yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yn yr un modd, mae cyfarfodydd rheolaidd wedi parhau gyda chydweithwyr Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau cynnydd yn unol â'r Safonau ac er mwyn derbyn adborth rheolaidd o ran gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Iaith. Mae'r isadran Rheoli Pobl yn monitro'r prosesau recriwtio ac yn cefnogi rheolwyr o ran cynnal asesiadau iaith swyddi ac maent hefyd yn gyfrifol am y ddarpariaeth hyfforddiant a chefnogaeth cyflogaeth i holl staff y cyngor. Byddwn yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd yn ystod 2019-20.

Mae'r Adran Cymunedau yn parhau i arwain ar Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau ac yn sicrhau y gwneir cynnydd wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn y maes gofal a gofal cymdeithasol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r gweithgor adrannol wedi cyfarfod yn rheolaidd i drafod meysydd megis cynllunio gweithlu, comisiynu gwasanaethau a hyfforddiant staff. Mae system newydd casglu data yn cael ei sefydlu ac mae'r Gymraeg yn cael ei ystyried yn drwyadl er mwyn sicrhau bod y data cywir yn cael ei gasglu ar y pwynt cyswllt a fydd yn sbarduno mwy o ddarpariaeth Cymraeg i'r defnyddwyr sydd ei eisiau. Yn yr un modd, mae'r gweithgor wedi cymryd camau er mwyn adnabod bylchau yn ein gweithlu o ran sgiliau, gan edrych ar sut i feithrin y Gymraeg o fewn y meysydd hynny at y dyfodol.

Sefydlwyd gweithgor newydd i drafod y Gymraeg ym myd busnes a chyfleoedd i ddylanwadu ar ddefnydd busnesau preifat o'r Gymraeg. Y bwriad oedd tynnu at ei gilydd swyddogion o adrannau amrywiol y Cyngor sy'n ymwneud gyda'r sector preifat mewn sefyllfaoedd amrywiol, ynghyd â swyddogion Byd Busnes y Llywodraeth i geisio cydweithio i ddylanwadu ar ddefnydd busnesau o'r Gymraeg. Drwy'r grŵp hwn adnabuwyd cyfleoedd i rannu gwybodaeth rhwng y timoedd Adfywio, Cynllunio a Pholisi a gwahoddwyd Tîm Hybu Swyddfa'r Comisiynydd yn ogystal i roi safbwynt busnesau mawr.

Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn cyflwyno gwybodaeth bellach am waith y Cyngor fesul dosbarth o Safonau.

## Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

**Gohebiaeth (Safonau 1 - 7), Ffôn (Safonau 8 -22), Cyfarfodydd a digwyddiadau (Safonau 24 - 36) Cyhoeddusrwydd, arddangos deunydd a llunio dogfennau a ffurflenni (Safonau 37 - 51), Gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol (Safonau 52 - 59), Peiriannau hunan wasanaeth (Safon 60), Arwyddion (Safonau 61 - 63), Gwasanaeth derbynfa (Safonau 64 - 68), Hysbysiadau swyddogol (Safonau 69 - 70), Dyfarnu grantiau a chontractau (Safonau 71 - 80), Systemau annerch (Safon 87), Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg (Safonau 81 - 82), Hunaniaeth gorfforaethol (safon 83), Cyrsiau (Safon 84 - 86)**

Mae'r Cyngor wedi parhau i hyrwyddo'r canllawiau sy'n egluro i staff beth yw'r gofynion o ran **cydymffurfio gyda'r Safonau**. Mae'r canllawiau ar gael ar y fewnrwyd er mwyn bod pob aelod o staff yn gallu eu gweld a'u darllen. Mae'r Arweinwyr Iaith yn llwyr ymwybodol ohonynt ac yn cyfeirio aelodau o staff o fewn eu timoedd a'u hadrannau atynt. Mae'r e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith hefyd yn cyfeirio at y Canllawiau er mwyn sicrhau bod staff yn cydymffurfio gyda'r Safonau, a gellir cyrchu'r canllawiau o'r modiwl.  Gosodwyd erthyglau cyson yng nghylchlythyr y Cyngor a'r cylchlythyron adrannol er mwyn atgoffa staff am y Safonau a'u cyfeirio ble gellid cael cymorth a gofyn am gyngor.

Cafwyd newidiadau corfforaethol i lofnod e-bost o fewn y Cyngor yn dilyn ychwanegiad ffrydiau cyfryngau cymdeithasol newydd.  Sicrhawyd bod y templed llofnod newydd a gylchredwyd yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol ar y Gymraeg fel bod ein **gohebiaeth** yn parhau i gydymffurfio â'r Safonau.

Lluniwyd erthygl ar wasanaeth Tocyn Cymru er mwyn annog staff i ddefnyddio'r gwasanaeth dwyieithog hon sydd yn cynorthwyo **trefnu cyfarfodydd** a chynadleddau'n gwbl ddwyieithog. Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio'r system hwn ac o wneud hynny sicrhawyd fod y broses weinyddol yn gwbl ddwyieithog.

Parhaodd y Cyngor i **hyrwyddo'i wasanaethau Cymraeg** drwy'r ymgyrch 'Pa bynnag ffordd...'. Yn ystod y flwyddyn, crëwyd fideo i'w osod ar y cyfryngau cymdeithasol o staff yr Awdurdod yn croesawu'r cyhoedd i gysylltu gyda nhw yn Gymraeg. Y bwriad oedd, o ddangos wynebau staff sy'n medru'r Gymraeg mewn amrywiol adrannau, y bydd y cyhoedd yn teimlo'n fwy cyfforddus i gysylltu gyda'r Cyngor yn Gymraeg yn gyffredinol.  Defnyddiwyd byrddau hun-lun 'Pa Bynnag ffordd' i gyfleu'r negeseuon hyn yn yr un ddelwedd a'r arosfanau bysus llynedd.

Ar ddiwrnod 'Shwmae', Hydref 2018, crëwyd fideo o staff yr Adran Hamdden a Diwylliant yn **hyrwyddo rhai o'u gwasanaethau** Cymraeg a dwyieithog.  Ymgyrch gan yr Arweinwyr Iaith oedd hwn, yn hyrwyddo gweithgareddau ym Mharc Pen-bre, ein llyfrgelloedd a'r canolfannau hamdden. Gosodwyd y fideo ar y cyfryngau cymdeithasol dros gyfnod diwrnod Shwmae a defnyddiwyd fframiau hun-lun diwrnod Shwmae ar gyfer yr ymgyrch.

Mae gwaith wedi dechrau ar greu dau fideo **hyfforddi** ar gyfer y sector hamdden, a fydd yn dangos i diwtoriaid sut i ddarparu sesiwn hyfforddiant hamdden ddwyieithog.  Bydd un fideo'n dangos sut i drefnu, cynnal a gweinyddu gwers nofio mewn modd sy'n caniatáu i blentyn dderbyn hyfforddiant cyfrwng Cymraeg o fewn yr un sesiwn hyfforddi a phlentyn sy'n cael ei ddysgu drwy'r Saesneg.  Yna, bydd y fideo arall yn edrych ar gampau amrywiol a chymysgedd amrywiol o Gymry Cymraeg a di-Gymraeg er mwyn gosod safonau yn eu lle ar sut i ddarparu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg addas ym mhob sefyllfa.

Mae perthynas waith dda mewn lle gyda'r tîm Caffael corfforaethol sy'n ein galluogi i gydweithio'n agos gydag adrannau wrth iddynt lunio cytundebau ac wrth edrych ar gomisiynu, boed yn lleol neu yn rhanbarthol. Mae'r Swyddog Cydymffurfiaeth o fewn y tîm Caffael yn gyfrifol am y ddogfennaeth caffael safonol ac mae'r gofynion o ran Safonau'r Gymraeg yn glir o fewn y ddogfennaeth hynny. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cynghori ar amryw ymarferion tendro, gan gynnwys:

- Darpariaeth gofal ôl-ysgol a gwyliau i Blant Anabl yn y sir
- Darpariaeth hamddena ym Mharc Pen-bre
- Cytundebau gwaith ymchwil a chynnal digwyddiadau Bargen Ddinesig Bae Abertawe
- Gwefan y Bartneriaeth Gofal Ranbarthol ar gyfer canfod lleoliadau gofal preswyl

## Cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi

**(Safonau 88 – 97)**

Ceir cwestiynau o ran y Gymraeg yn y templed Asesu Effaith ar Gydraddoldeb ar hyn o bryd, ac fe ddefnyddir y templed hynny wrth asesu effaith ein polisïau, prosiectau a'r broses o osod cyllideb y cyngor. Y tîm Polisi a Phartneriaeth sy'n cefnogi'r adrannau gyda'r gwaith hwn.

Fel dilyniant i'r templed gwreiddiol, mae Asesiad Effaith Integredig wedi cael ei baratoi sy'n dwyn ynghyd deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, y Gymraeg, Deddf Amgylchedd a chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant. Mae'r asesiad yn cynnwys cwestiynau penodol o ran y Gymraeg ac effaith unrhyw bolisi ar allu siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith a sut yr ydym ni'n hyrwyddo'r Gymraeg.

Crëwyd canllawiau ar yr asesiad integredig gydag adran benodol am y Gymraeg.

Yn ystod 2019/20, bydd y cyngor yn cyflwyno'r asesiad newydd ac yn cynnal hyfforddiant i Aelodau Etholedig a swyddogion ar yr asesiad effaith integredig newydd ac yn cynnal prosiect peilot 6 mis er mwyn derbyn adborth ar y templedi a chanllawiau newydd.

## Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu

**(Safonau 98 – 144)**


**Hwyluso Defnydd Mewnol**

Yn ystod 2018-19, bu'r Tîm Polisi yn parhau i hyrwyddo'r **adnoddau ar-lein** sy'n cynorthwyo ein staff i wneud fwy o ddefnydd o'r Gymraeg wrth eu gwaith. Lluniwyd canllaw i reolwyr yn crynhoi'r holl gefnogaeth ar un daflen gyda dolenni at y clipiau sain, y templedi a'r rhestrau geirfa. Cyflwynwyd yr adnoddau hefyd yn drwyadl i'r Arweinwyr Iaith newydd fel rhan o'u hyfforddiant.

Yn naturiol, wrth i weithdrefnau'r Safonau sefydlu o fewn y cyngor, mae natur yr ymholiadau sydd yn ein cyrraedd wedi newid ac wrth fonitro yr ymholiadau hynny, rydym yn ymateb ac yn paratoi canllawiau o'r newydd. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweithio ar ddau ganllaw newydd, sef Canllaw Cynnal Cyfweliadau a Threfnu a Chynnal Cwrs Addysg. Byddwn yn cyflwyno'r ddau ganllaw at gymeradwyaeth y Tîm Rheoli Corfforaethol yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.

Darparwyd **cwrs hyfforddiant Arweinwyr Iaith** yn fewnol unwaith eto eleni, a hynny dros gyfnod hirach, ac am sesiynau byrrach er mwyn gweddu natur gwaith yr adran o dan sylw. Darparwyd y tro hwn i staff ein Gwasanaethau Plant yn ogystal â rhai staff ychwanegol o Adran yr Amgylchedd. Roedd yna elfennau dwys o ymwybyddiaeth iaith yn ogystal â hyfforddiant trwyadl ar y Safonau ac ar

y cymorth sydd ar gael i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn fewnol.  Cafwyd adborth ardderchog oddi wrth yr arweinwyr iaith newydd am yr hyfforddiant gyda 100% yn nodi eu bod yn hyderus iawn neu'n weddol hyderus gyda phob amcan dysgu yn dilyn yr hyfforddiant.




Yn dilyn hyfforddiant y cohort diweddaraf o Arweinwyr Iaith, rydym wedi bod wrthi'n llunio **cynlluniau gweithredu personol** gyda nhw.  Gan nad ydyw'n ymarferol bosib i'r Arweinwyr Iaith yn y sector gofal i gwrdd yn gyson a chydgynllunio gwaith i hyrwyddo'r Gymraeg, rydym yn treialu creu cynlluniau gweithredu personol a fydd yn eu sbarduno i wneud gwelliannau yng ngweithdrefnau eu timoedd o safbwynt y gwasanaethau rydyn ni'n cynnig yn Gymraeg ac o ran y gweithredu mewnol dwyieithog.  Mae'n ddyddiau cynnar o safbwynt ymarferoldeb y cynlluniau gweithredu gan ei fod yn gofyn am fuddsoddiad amser o safbwynt yr uned bolisi i sicrhau cynnydd ac arweiniad ar y gwaith hwn.  Ond mae cryn botensial i'r gwaith o safbwynt gwella gweithredu mewnol yn Gymraeg yn sicr.

Parhawyd i weithio gyda'r **Arweinwyr iaith** eraill yn yr isadran Hamdden ac Adran yr Amgylchedd. Cafwyd gwelliannau i aelodaeth y grŵp hamdden a sefydlwyd trefn newydd o gael cyswllt rhwng y grŵp Arweinwyr Iaith a'r Tîm Rheoli Adrannol.  Gweithiodd yr holl Arweinwyr gyda'r staff yn ei hadrannau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, yr amrywiaeth o gyfleoedd newydd sydd ar gael i staff i ddysgu Cymraeg a'r gefnogaeth ymarferol sydd ar gael ar fewnrwyd y Cyngor. Targedwyd diwrnod Shwmae a dydd Gŵyl Dewi gan yr Arweinwyr Iaith adrannol i'r perwyl hwn i godi ymwybyddiaeth mewnol a chyhoeddus o'n darpariaeth.

Yn ogystal â'r gwaith o hyrwyddo Gwasanaethau a soniwyd amdano o dan y Dosbarth 'Cyflenwi Gwasanaethau', bu Arweinwyr Iaith Adran yr Amgylchedd yn hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol hefyd. Cynhaliwyd digwyddiad Gŵyl Dewi yn 2019 oedd yn hyrwyddo defnyddio a dysgu Cymraeg, ac oedd hefyd yn gyfle trawsadrannol i gymdeithasu'n Gymraeg a dathlu diwylliant Cymraeg.  Cynhaliwyd cystadleuaeth ysgrifennu limrig, cwisiau, dangoswyd gwybodaeth am yr arweinwyr iaith ar fyrddau arddangos, cafwyd clipiau fideo i hyrwyddo defnydd y Gymraeg.  Roedd yn gyfle i'r criw o Arweinwyr Iaith hyrwyddo eu rolau ymysg eu cydweithwyr gan annog staff i ddod atynt am gymorth gydag unrhyw faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.

I ddathlu diwrnod Shwmae trefnwyd neges 'Pop up' ar y fewnrwyd yn gofyn i bobl ddewis o gyfres o addewidion  Diwrnod Shwmae yn ymwneud â **defnyddio'r Gymraeg yn fewnol**.  O gysylltu gyda rhywun yn Gymraeg ar Skype, i anfon e-bost at gydweithiwr yn Gymraeg, roedd staff fod dewis cynifer o'r addewidion ac roedden nhw'n dymuno.  Ymdrech oedd yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth

ac awydd staff i ddefnyddio mwy o Gymraeg wrth weithio, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o ddiwrnod Shwmae yn fewnol.

Yn ystod 2018, llwyddwyd i roi **e-fodiwl newydd ymwybyddiaeth iaith** yr Awdurdod ar waith, gan ei gyflwyno'n orfodol i bob aelod newydd o staff. Mae'r e-fodiwl yn fwy deniadol, wedi selio ar ddeddfwriaeth gyfredol ac yn cynnwys negeseuon newydd ynglŷn â phwysigrwydd y Gymraeg mewn meysydd penodol fel y maes iechyd a gofal a hamdden. Rhannwyd yr e-fodiwl gyda'r Awdurdod Iechyd hefyd, er mwyn iddynt ei addasu a'i ddefnyddio eu hunain. Rhoddwyd e-fodiwl anwytho newydd yr Awdurdod ar waith yn ogystal. Ynddo roedd esboniad o bwysigrwydd y Gymraeg yn y cyflwyniad a chyfeiriad at yr e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith hefyd.

Yn dilyn y gwaith ar recriwtio mentoriaid i'n dysgwyr yn y gweithle a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf, comisiynwyd **adnodd newydd eleni i gynorthwyo'r Mentoriaid** yn eu gwaith. Mae adnoddau iaith ar y gweill felly, fydd yn cynnwys gemau a gweithgareddau a fydd yn gweddu, ond ddim o anghenraid yn cyd-fynd gyda'r cyrsiau cymunedol y maent yn eu dilyn. Fe gaiff yr adnoddau hyn eu lansio a'u lledaenu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

**Cynyddu Sgiliau Iaith staff**

Yn dilyn cynnal awdit o sgiliau iaith staff y Cyngor, mae'r holl ddata yn cael ei gadw ar system Adnoddau Dynol ac rydym yn parhau i fonitro'r data er mwyn ei ddiweddaru ac adnabod cyfleoedd dysgu. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf o safbwynt yr awdit sgiliau iaith ar gael ar dudalen 12 o'r adroddiad hwn.

Mae safon 154 yn gofyn i'r Cyngor Sir gadw cofnod o'r holl swyddi a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn am sgiliau iaith hanfodol. Yn dilyn derbyn Strategaeth Sgiliau Iaith y Cyngor, mae pob swydd yn gofyn am sgiliau iaith yn Gymraeg, ond ceir amrywiaeth o lefel 1 i lefel 5 yn y gofynion yn ddibynnol ar ddisgrifiad unigol pob swydd.

Mae'r isadran Rheoli Pobl wedi bod yn adolygu y **Polisi Recriwtio a Dethol**, gan gryfhau y ddolen gyda Safonau'r Gymraeg a'r Strategaeth Sgiliau Iaith. Drwy waith yr Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu, rydym hefyd wedi cryfhau'r ddolen rhwng y prosesau recriwtio a'r gwaith o baratoi cytundebau dysgu a'r ffyrdd o gyfeirio at yr amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael i staff. Mae'r Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu wedi gweithio ar egluro'r cyrsiau o ran sut maent yn cyfateb i lefelau iaith y Cyngor ac wedi dod o hyd i nifer o gyrsiau ychwanegol sy'n cynnig mwy o gyfleoedd i staff i ddysgu Cymraeg.

Mae'r gwaith o hyrwyddo'r **Cwrs Croeso Cymraeg Gwaith** sy'n para 10 awr yn parhau ar draws y cyngor. Bwriad y cwrs yw cyflwyno Cymraeg Gwaith i staff a'u helpu i gyrraedd lefel 1. Bellach, mae'r cwrs 'Croeso Nôl' ar gael ar wefan y Ganolfan, ac rydym yn cyfeirio staff at yr adnodd hynny, law yn llaw a'r modiwlau Croeso sydd wedi'u teilwra i sectorau penodol.

Mynychodd 7 aelod o staff y cwrs preswyl i ddysgwyr yn Nant Gwrtheyrn yng Ngogledd Cymru. Cafodd y saith gyfle unigryw i ymarfer pob elfen o'r iaith Gymraeg, siarad, darllen, gwrando ac ysgrifennu, ond rhoddwyd pwyslais arbennig ar ddatblygu hyder i siarad yr iaith.

Ceir crynodeb o'r holl hyfforddiant a ddarparwyd i staff y Cyngor yn ystod 2018-19 ar dudalen 11.

## Cydymffurfio â'r Safonau Hybu

**(Safon 145 – 146)**

**Strategaeth Hybu Cyngor Sir Gâr 2017-18**

Wedi llunio **Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hybu**, aed ati i roi'r Cynllun ar waith. Dewiswyd themâu yn unol â nodau'r strategaeth a threfnwyd cyfres o gyfarfodydd Fforwm a'r Panel fesul tri mis er mwyn trafod cynnydd ar bob thema, a symud y camau gweithredu ymlaen. Ym mis Medi rhoddwyd sylw i'r thema 'Tai' o dan y nod o 'effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth'. Rhoddwyd cyflwyniad gan Bennaeth Gwasanaeth Tai a Chymunedau Diogel y Cyngor Sir. Yn Rhagfyr, cafwyd cyfarfod ar y maes hamdden, o dan y nod o fagu hyder a defnydd bobl ifanc yn y Gymraeg. Cafwyd cyflwyniad gan Bennaeth Gwasanaeth Hamdden a Diwylliant y Cyngor, Swyddog o'r Cyngor Chwaraeon ac o Adran chwaraeon yr Urdd. Ym mis Mawrth rhoddwyd sylw i'r economi, o dan y nod o ddylanwadu ar symudiadau poblogaeth. Cafwyd cyflwyniad gan Bennaeth Adfywio ac Economi'r Cyngor, gan Brif Weithredwr Menter a Busnes ac Antur Teifi. Ym mhob achos cytunwyd ar gamau gweithredu newydd, yna cylchredwyd y cynllun gweithredu gyda'r diweddariadau ynddi i'r Fforwm a'r Panel. Yn y modd hwn, mae'r cynllun yn un gweithredol yn hytrach na chynllun sy'n aros yn statig.

Parhawyd ar y gwaith o ddosbarthu a lledaenu **taflen 'Bod yn Ddwyieithog'** yn electroneg ac ar bapur. Drwy aelodau'r Fforwm, drwy gydweithio gyda Chanolfan Wybodaeth i Deuluoedd y Cyngor Sir, a'r adran adnoddau dynol fe'i gosodwyd ar dudalennau gwe berthnasol er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Eleni llwyddwyd, yn ogystal, i gydblethu'r gwaith a wnaed ar y ddogfen hon gyda'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA). Gosodwyd 'pryderon cyffredin rhieni' o safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg, fel adran ar wefan yr Adran Addysg ynghyd a'r dystiolaeth y tu ôl i'r dadleuon dros addysg ddwyieithog. Byddwn yn cydweithio â'r Adran Addysg a Phlant i gefnogi'r gwaith o symud y Cynllun Strategol yn ei flaen, a bydd dosbarthu'r daflen yn un elfen o'r gwaith hynny. Dyluniwyd ac argraffwyd hefyd daflen i hwyluso defnydd Cymraeg rhieni sydd ddim yn rhugl yn y Gymraeg gyda'u plant. Gosodwyd hwn ar dudalennau gwe'r Gymraeg ac addysg, ac fe'i ddosbarthwyd yn ogystal drwy'r Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd.

Gweinyddwyd ymhellach yr Holiadur a luniwyd y llynedd i geisio **canfod ymwybyddiaeth** bobl y sir o'r Gymraeg a'r cyfleoedd o ddefnyddio'r Gymraeg. Gweinyddwyd 350 o holiaduron sydd, er yn nifer cymharol fach, yn rhoi blas i ni o agweddau carfan o drigolion y sir at y Gymraeg, ac o'i weinyddu eto, mewn modd tebyg, cyn pen tair blynedd, fe fydd yn fodd o fesur effaith y strategaeth hybu.

Yn ystod y flwyddyn cwblhawyd y gwaith o greu **pecyn gwybodaeth** i bobl sy'n symud i'r sir. Mae'r Pecyn yn cynnwys gwybodaeth ystadegol am y Gymraeg, gwybodaeth am ble y gall unigolyn fynd i ddysgu Cymraeg, i gael addysg Gymraeg ac i ymuno yn y gymuned Gymraeg, yn ogystal â gwybodaeth am adnoddau electroneg ac ar y cyfryngau i ddefnyddio Cymraeg o ddydd i ddydd. Mae'n cynnwys delweddau o Sir Gâr a ffeithiau diddorol am y Gymraeg yn y sir. Gweithredwyd cynllun dosbarthu yn ystod y flwyddyn i geisio cyrraedd mewnfudwyr drwy amryw o ffyrdd. Trefnwyd bod copi yn cael ei anfon allan wrth i drigolion gofrestru i bleidleisio er enghraifft. Cynhaliwyd prosiect peilot yn ogystal gyda Menter Gorllewin Sir Gâr, oedd yn cydweithio gyda chymdeithas dai ac arwerthwr tai. Bydd y gwaith o ddosbarthu'r pecyn yn parhau ac yn cael ei ddatblygu drwy'r Fforwm Sirol.

Gwnaed gwaith i **hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector preifat** yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal â sefydlu'r Grŵp o swyddogion Awdurdod Lleol a Byd Busnes i gydlynu ymdrechion i Gymreigio busnesau, cryfhawyd y telerau yn ymwneud â grantiau datblygu busnes i sicrhau bod unrhyw waith hyrwyddo a wneir drwy'r grantiau hyn yn gorfod digwydd yn ddwyieithog. Aed gam ymhellach, yn ogystal, drwy osod yr amod hwn hefyd ar gwmnïoedd sy'n llogi ein hadeiladau. Ar ben hyn, gwrthodwyd cais cynllunio am arwyddion allanol gan fusnes ar sail ieithyddol. Yn dilyn apêl gan y busnes oedd am osod arwyddion uniaith Saesneg mewn ardal gyda chanran uchel o siaradwyr Cymraeg, cytunodd yr arolygydd cynllunio, ar sail Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, fod gennym hawl i fynnu cael arwyddion dwyieithog. Mae'r cam yma yn gosod cynsail defnyddiol i ni ar gyfer y dyfodol, ond erys gwaith i wneud wrth orfodi cydymffurfiaeth â'r penderfyniadau yn dilyn y broses o geisiadau cynllunio.

## Cwynion a dderbyniwyd 2018/19

Isod ceir rhestr o’r cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2018/19 ynghyd â chrynodeb o’r gweithredu yn dilyn eu derbyn. Derbyniwyd 6 cwyn yn uniongyrchol i’r Cyngor ac fe y ymdriniwyd â’r cwynion yn unol â Gweithdrefn Gwynion y cyngor.

| | Cwyn | Ymateb a gweithredu |
|---|---|---|
| | **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau** | |
| 1. | Cwyn ynghylch camgymeriad ar arwydd gwaith ffordd yn Rhydaman | • Cadarnhawyd nad oedd yr arwydd yn gywir yn y Gymraeg na’r Saesneg<br>• Gofynnwyd i’r contractwyr a oedd wedi’i cytundebu i wneud y gwaith ffordd i baratoi arwydd newydd yn unol â’r Safonau ac yn unol â Rheoliadau a Chyfarwyddid Arwyddion Ffordd, Llywodraeth Cymru. |
| 2. | Cwyn am y nifer isel o e-lyfrau llafar cyfrwng Cymraeg a oedd ar gael drwy Lyfrgelloedd y sir | • Esboniwyd bod y Llyfrgelloedd yn cydweithio gyda chwmni Borrowbox er mwyn adeiladu cronfa o e-lyfrau llafar<br>• Pan dderbyniwyd y gwyn, roedd y cwmni yn y broses o symud nifer o lyfrau draw i fod ar fformat e-lyfrau ac e-lyfrau llafar. |
| 3. | Cwyn am beiriant hunanwasanaeth parcio yn Rhydaman a bod y peiriant wedi’i ragosod i’r Saesneg gyda’r Gymraeg fel opsiwn | • Esboniwyd bod y peirannau hunanwasanaeth parcio mewn lle ers nifer o flynyddoedd, cyn cyflwyno Safonau’r Gymraeg.<br>• Yn anffodus, pan gosodwyd y peirannau nid oedd modd rhoi’r opsiwn Cymraeg fel yr opsiwn cyntaf ond rydym yn ymwybodol bod y feddalwedd hon ar gael erbyn hyn.<br>• Mae Adran yr Amgylchedd, sy’n gyfrifol am y peirannau wedi gwneud cais am arian cyfalaf i newid y peiriannau ar draws y sir. Byddai’r sgriniau newydd yn gosod y Gymraeg a’r Saesneg ochr yn ochr ar y ddewislen gyntaf. Petai’r cais yn llwyddiannus bydd yn cymryd pedair blynedd i newid pob un ohonynt. |
| 4. | Cwyn am gyfarchiad a ddefnyddir gan y Ganolfan Gyswllt – bod y Ganolfan yn cyfarch gyda chyfarchiad Saesneg yn gyntaf ac yna’r Gymraeg | • Esboniwyd bod y Cyngor yn dilyn polisi lle cynigir y Gymraeg yn gyntaf. Er hynny, esboniwyd bod penderfyniad wedi ei wneud rhai blynyddoedd yn ôl i gyfarch yn Saesneg yn gyntaf, yn dilyn cwynion gan aelodau o’r cyhoedd nad oeddent yn clywed y cyfarchiad Cymraeg<br>• Esboniwyd ein bod yn gorffen gyda’r cyfarchiad Cymraeg er mwyn annog pobl i barhau â’r sgwrs yn Gymraeg<br>• Mae holl staff y Ganolfan Gyswllt yn rhugl yn y Gymraeg |

| | Cwyn | Ymateb a gweithredu |
|---|---|---|
| 5. | Cwyn am wasanaeth Llesiant Delta Wellbeing, lle roedd yr unigolyn wedi dewis derbyn gwasanaeth Cymraeg ar y ffôn ond wedi gorfod aros 20 munud cyn i dderbynnydd ateb. Nodwyd bod yr unigolyn eisiau trafod addasiadau cartref ar y ffôn ond ni ofynnwyd am ddewis Iaith yn ystod yr alwad, er mwyn prosesu gwybodaeth ar gyfer asesiad o'r cartref | • Ymddiheurwyd i'r unigolyn am yr anghyfleustra a nodwyd bod nifer uchel o staff y gwasanaeth yn siaradwyr Cymraeg |
| 6. | Cwyn am gamgymeriadau yn fersiwn Cymraeg 'Holiadur Anghenion Tai Gwledig' a gylchredwyd yn y sir | • Ymddiheurwyd yn ddiffuant am y camgymeriadau yn yr arolwg Tai<br>• Esboniwyd bod yr isadran Dai wedi comisiynu cwmni allanol i wneud y gwaith ymchwil a bod gofyn iddynt baratoi fersiynau dwyieithog o'r holiadur<br>• Cytunwyd y byddai unrhyw waith a gomisiynir gan adrannau'r Cyngor, lle mae gofyn am baratoi dogfennau, yn cael ei gyflwyno i'r Uned Gyfieithu ar gyfer prawf ddarllen, cyn ei dderbyn yn ffurfiol |

## Hyfforddiant a ddarparwyd

| Lefel y Cwrs: | 2018-2019* | 2017-2018* |
|---|---|---|
| Mynediad | 27 | 15 |
| Sylfaen | 19 | 14 |
| Canolradd | 7 | 1 |
| Uwch | 0 | 1 |
| Tu allan i'r fframwaith | 0 | 15 |
| **Cymraeg Ar-lein** | | |
| *Cymraeg Gwaith - Croeso* | 114 | |
| *Cymraeg Gwaith - Croeso 'Nol* | 1 | |
| *Cymraeg Graenus Ar-lein* | 3 | |
| *Say Something in Welsh (Intensive)* | 2 | |
| **Croeso Cymraeg i Ofalwyr** | 8 | |
| **Cymraeg Gwaith Dwys** | | |
| *Mynediad* | 16 | |
| *Sylfaen* | 12 | |
| **Cymraeg Gwaith Cwrs Preswyl** | 3 | |
| **Cyrsiau Gloywi Siarad** | 3 | |
| **Cymraeg Gwaith Agored Cymru** | 8 | |
| **Cyfanswm** | **223** | |

### Cyrsiau E-ddysgu trwy Gyfrwng y Gymraeg:

| Cwrs | Niferoedd |
|---|---|
| Cadw Gofalwyr Ifanc yn y Cof | 2 |
| Croeso i Ymwybyddiaeth Iaith | 12 |
| Diogelu Oedolion a phlant mewn perygl | 10 |
| Diogelu Data (GDPR) | 47 |
| GDPR & seiber hyfforddiant ac e-ddysgu | 6 |
| Llawlyfr i yrwyr | 2 |
| U4BW (1) Cyflwyniad i'r system (Gwe) | 7 |
| Ymsefydlu - Eich Cyngor | 2 |
| Iechyd meddwl yn y gweithle | 2 |
| Safonau Ymddygiad yn y Gweithle | 1 |
| **Cyfanswm** | **91** |

| | |
|---|---|
| Ymwybyddiaeth Iaith (Saesneg) | 797 |

* Noder bod rhai o'r cyrsiau yn rhedeg fesul blwyddyn academaidd, nid blwyddyn calendr a byddant yn cael eu hadrodd yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf.

Ers sefydlu'r fframwaith mentora i helpu staff datblygu eu sgiliau iaith, parwyd 38 o ddysgwyr gyda 32 o fentoriaid yn swyddogol. Er, mae'n bwysig i nodi bod llawer o fentora dal yn digwydd yn gweithle sydd heb eu nodi yn swyddogol.

**Trosolwg o ddefnyddio'r Gymraeg o fewn Hyfforddiant:**

Er nad yw'r cynnwys yn cael eu ddarparu mewn un iaith, mae llawer o gyrsiau yn cynnwys y Gymraeg ac yn rhoi cyfle i fynychwyr siarad Cymraeg. Mae Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn sicrhau bod eu holl adnoddau yn ddwyieithog, yn croesawi pawb yn ddwyieithog ac yn apwyntio hyfforddwyr Cymraeg fel bo angen.

O ran hyfforddiant i'r aelodau, mae'r adnoddau yn ddwyieithog. Darparwyd rhai cyrsiau cyfrwng Cymraeg a rhai yn ddwyieithog, lle darparwyd rhan o'r sesiwn yn Gymraeg a rhan yn Saesneg. Yn ogystal, ar draws Dysgu a Datblygu cynigwyd grwpiau trafodaeth Cymraeg i'n staff yn ystod ymarferion gweithdai.

## Adrodd ar Safonau 128 a 152

Mae Safon 128 yn gofyn i'r cyngor i ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg:

(a) recriwtio a chyfweld;

(b) rheoli perfformiad;

(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;

(ch) ymsefydlu;

(d) delio â'r cyhoedd; ac

(dd) iechyd a diogelwch.

Mae'r cynnig i ddilyn unrhyw ddysgu yn y Gymraeg ar ein ffurflenni cais Dysgu a Datblygu. Rydym yn y broses o adolygu pob un o'r modiwlau e-ddysgu sy'n cefnogi'r meysydd a enwir yn y Safonau a bydd y cyfan wedi eu diweddaru yn ystod 2019-20.

Mae Safon 152 yn rhoi cyfrifoldeb ar y cyngor i gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o:

(a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a

(b) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.

Yn ystod 2018-19, cofrestrwyd yn unol â Safon 152 (a), bod 7,926 o fynychwyr i gyrsiau lle cynigiwyd darpariaeth yn y Gymraeg. O'r 7,926 a fynychodd y cyrsiau lle cynigwyd y dysgu yn y Gymraeg, dilynodd 1,280 y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu 16% (Safon 152 (b)).

## Awdit Sgiliau Iaith

Mabwysiadodd y Cyngor Strategaeth Sgiliau Iaith ym mis Ionawr 2016 gyda'r amseru'n berffaith o ran cydymffurfio â'r Safonau ar 30 Mawrth 2016. Un o gamau gweithredu'r Strategaeth oedd diweddaru'r awdit o sgiliau iaith y gweithlu ac roedd yn cyd-fynd gyda Safon 127 sy'n rhoi cyfrifoldeb ar y Cyngor i 'asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion'. Wrth i'r staff dderbyn hyfforddiant a symud ar

hyd y continwwm, mae'r cofnod yn cael ei ddiweddaru ac wrth benodi aelodau newydd o staff mae'r cofnod yn cael ei roi ar feddalwedd Adnoddau Dynol.

Dyma'r data a oedd ar y system ar ddiwedd mis Mawrth 2018 -

| | Nifer | Canran | | Nifer | Canran |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dim Sgiliau Llafar** | 840 | 15% | **Dim Sgiliau Ysgrifennu** | 1624 | 29% |
| **Lefel 1 Llafar** | 1474 | 27% | **Lefel 1 Ysgrifennu** | 1304 | 24% |
| **Lefel 2 Llafar** | 929 | 17% | **Lefel 2 Ysgrifennu** | 803 | 15% |
| **Lefel 3 Llafar** | 682 | 12% | **Lefel 3 Ysgrifennu** | 653 | 12% |
| **Lefel 4 Llafar** | 579 | 11% | **Lefel 4 Ysgrifennu** | 449 | 8% |
| **Lefel 5 Llafar** | 1009 | 18% | **Lefel 5 Ysgrifennu** | 671 | 12% |

Dyma'r data a oedd ar y system ar ddiwedd mis Mawrth 2019 -

| | Nifer | Canran | | Nifer | Canran |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dim Sgiliau Llafar** | 636 | 11% | **Dim Sgiliau Ysgrifennu** | 1504 | 27% |
| **Lefel 1 Llafar** | 1712 | 30% | **Lefel 1 Ysgrifennu** | 1442 | 25% |
| **Lefel 2 Llafar** | 938 | 16% | **Lefel 2 Ysgrifennu** | 844 | 15% |
| **Lefel 3 Llafar** | 726 | 13% | **Lefel 3 Ysgrifennu** | 667 | 12% |
| **Lefel 4 Llafar** | 604 | 11% | **Lefel 4 Ysgrifennu** | 477 | 8% |
| **Lefel 5 Llafar** | 1083 | 19% | **Lefel 5 Ysgrifennu** | 739 | 13% |

- Gwnaethpwyd yr arolwg staff mewn dwy ran. Cynhaliwyd arolwg meta-cydymffurfiaeth ar gyfrifiaduron y Cyngor ar gyfer yr holl staff swyddfa ac ar gyfer y staff sy'n gweithio ar draws y sir heb gyswllt swyddfa, defnyddiwyd meddalwedd SNAP a theclynnau symudol a fersiwn papur.
- Mae'r holl ddata yn seiliedig ar hunanasesiad y staff o lefelau eu sgiliau iaith. Wrth gwblhau'r awdit gofynnwyd i staff nodi unrhyw gefnogaeth y byddent yn dymuno ei chael i wella eu sgiliau iaith.
- Hyd yn hyn, mae 88% o'r staff wedi ymateb ac mae'r data wedi cael ei lwytho i'r System Gyflogau/Adnoddau Dynol. Mae cyrraedd y staff sydd heb gyswllt swyddfa reolaidd na mynediad i gyfrifiadur yn her barhaus i ni fel cyflogwr. Rydym yn parhau mewn cyswllt rheolaidd gyda chydlynwyr adrannol ac mae ymdrechion yn parhau i gyflawni ymateb llawn o bob maes gwasanaeth.

**Recriwtio**

Yn unol â Safon 136, cadwyd y cofnodion canlynol yn ystod 2018/19 o nifer y swyddi a hysbysebwyd a lefel y **sgiliau iaith llafar** ar y swyddi hynny.

| **Lefel a hysbysebwyd** | **Nifer y swyddi** | **Diffiniad y Fframwaith** |
|---|---|---|
| Lefel 1 | 55 | • Medru ynganu enwau llefydd ac enwau personol yn gywir.<br>• Medru cyfarch cwsmeriaid mewn derbynfa neu ar y ffôn.<br>• Medru agor a chloi sgwrs. |
| Lefel 2 | 208 | • Medru deall craidd sgwrs.<br>• Medru derbyn a deall negeseuon syml ar batrymau arferol, e.e. amser a lleoliad cyfarfod, cais am siarad gyda rhywun.<br>• Medru cyfleu gwybodaeth elfennol a chyfarwyddiadau syml.<br>• Medru agor a chau sgwrs a chyfarfod yn ddwyieithog. |
| Lefel 3 | 277 | • Medru deall a chymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgyrsiau arferol o ddydd i ddydd yn y swyddfa.<br>• Medru cynnig cyngor i'r cyhoedd ar faterion cyffredinol mewn perthynas â'r swydd, er yn gorfod troi i Saesneg ar gyfer termau technegol neu arbenigol.<br>• Medru cyfrannu i gyfarfod neu gyflwyniad ar faterion cyffredinol mewn perthynas â'r swydd, er yn gorfod troi i Saesneg ar gyfer termau technegol neu arbenigol. |
| Lefel 4 | 26 | • Medru cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol yng nghyd-destun y pwnc gwaith.<br>• Medru deall gwahaniaethau cywair a thafodiaith.<br>• Medru dadlau o blaid ac yn erbyn achos penodol.<br>• Medru cadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r Gadair yn hyderus. |
| Lefel 5 | 15 | • Medru cyfrannu'n rhugl a hyderus yng nghyswllt pob agwedd ar y gwaith beunyddiol, gan gynnwys trafod a chynghori ar faterion technegol, arbenigol neu sensitif.<br>• Medru cyfrannu i gyfarfodydd a darparu cyflwyniadau yn rhugl a hyderus. |
| **Cyfanswm** | **581** | |

Yn unol â Safon 136, cadwyd y cofnodion canlynol yn ystod 2018/19 o nifer y swyddi a hysbysebwyd a lefel y **sgiliau iaith ysgrifenedig** ar y swyddi hynny.

| **Lefel a hysbysebwyd** | **Nifer y swyddi** | **Diffiniad y Fframwaith** |
|---|---|---|
| Lefel 1 | 330 | • Medru ysgrifennu enwau personol, enwau llefydd, teitlau swyddi ac enwau adrannau'r Cyngor. |
| Lefel 2 | 157 | • Medru llunio neges fer syml ar bapur neu e-bost i gydweithiwr o fewn y Cyngor neu gyswllt cyfarwydd y tu allan i'r Cyngor. |
| Lefel 3 | 67 | • Medru llunio negeseuon ac adroddiadau anffurfiol at ddefnydd mewnol. |
| Lefel 4 | 12 | • Medru llunio gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon e-bost a llenyddiaeth hysbysrwydd gyda chymorth golygyddol. |
| Lefel 5 | 14 | • Medru llunio gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon e-bost a llenyddiaeth hysbysrwydd i safon dderbyniol gyda chymorth cymhorthion iaith.<br>• Medru llunio nodiadau manwl wrth gymryd rhan lawn mewn cyfarfod. |
| **Cyfanswm** | **581** | |

Ar y tudalennau olynol, ceir **astudiaethau achos** sy'n manylu ar ddarnau o waith penodol yn ystod 2018/19.

## Astudiaeth Achos: Pecyn Croeso

**Bwriad:** Codi ymwybyddiaeth bobl sy'n symud i'r sir o fodolaeth yr iaith Gymraeg, i roi gwybodaeth am ble y gall trigolion fynd i ddysgu Cymraeg, i gael addysg Gymraeg ac i ymuno yn y gymuned Gymraeg, yn ogystal â gwybodaeth am ddefnyddio'r Gymraeg yn electroneg ac yn y cyfryngau.

**Safon 145**: Llunio Strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut rydych chi'n bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnydd y Gymraeg yn ehangach yn eich ardal...

**Amcan** o'r Strategaeth Hybu:

iii. Cymryd camau pwrpasol i **effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth** ... gwneud ymdrechion sylweddol i gymathu mewnfudwyr ...

Y Broses a'r Amserlen:


- Yn ystod 2017: Trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru am addasu'r templed gwreiddiol
- Dysgu o gynllun Ynys Môn yn enwedig y cynllun dosbarthu
- Rhwng Ionawr 2018 a Mehefin 2018: Cyfarfod gyda swyddogion y Fforwm Sirol i drafod cynnwys a chyfarfodydd dilynol i addasu drafftiau
- Gwaith dylunio a drafftio dros yr un cyfnod
- Mai 2018: Cyflwyno drafft i gyfarfod y Panel ymgynghorol
- Diwedd Mehefin 2018: Cadarnhau fersiwn terfynol
- Gorffennaf 2018: Cychwyn ar drafodaethau dosbarthu
- Lansio Rhagfyr 2018
- Rhwng Medi 2018 hyd at nawr: Trefniadau dosbarthu

Casgliadau a phenderfyniadau o'r broses uchod:

- Cynnwys ystadegau diddorol am y Gymraeg fel yn y fersiwn gwreiddiol
- Cynnwys hanesion difyr lleol am y Gymraeg
- Cynnwys astudiaethau achos lleol o ddysgwyr
- Symud y wybodaeth am ddysgu Cymraeg i'r cefn er mwyn peidio codi ofn
- Cynnwys gwybodaeth statig, lleol am gyfleoedd cymdeithasol, a hynny ar ffurf map
- Cynnwys mwy o wybodaeth ymarferol am ble i ddefnyddio'r Gymraeg
- Ceisio cael adborth ar lwyddiant y llyfryn
- Ceisio dosbarthu'n strategol

Llwyddiannau:

Cwblhawyd y gwaith o **greu pecyn gwybodaeth** i bobl sy'n symud i'r sir, a hynny drwy gydweithio trwyadl a chyda chydsyniad holl fudiadau'r Fforwm Sirol a sêl bendith y Panel Ymgynghorol. Arweiniodd Uned Bolisi'r Cyngor ar y gwaith ac fe gyfrannodd yr Adran Addysg a'r Adran Farchnata. Yn ogystal, cyfrannodd 11 o fudiadau o'r tu allan i'r Cyngor i'r gwaith, sef: Y Dair Fenter Iaith, CFfI Sir Gâr, Mudiad Meithrin, Prifysgol Aberystwyth, y Llywodraeth, Yr Atom, y Lle, Cymdeithas yr Iaith a Dyfodol yr Iaith.  Mae'n cynnwys delweddau o Sir Gâr a ffeithiau diddorol am y Gymraeg yn y sir.




Gweithredwyd **Cynllun dosbarthu** yn ystod y flwyddyn i geisio cyrraedd mewnfudwyr drwy amryw o ffyrdd. Trefnwyd bod copi yn cael ei anfon allan wrth i drigolion gofrestru i bleidleisio er enghraifft. Cynhaliwyd prosiect peilot yn ogystal gyda Menter Gorllewin Sir Gâr, oedd yn cydweithio gyda chymdeithas dai ac arwerthwr tai. Mae ein partneriaid ar draws y sector gyhoeddus wedi bod yn allweddol wrth sicrhau fod aelodau o staff newydd sy'n ymuno â'r cyrff yn derbyn copi drwy'r broses anwytho ac mae Prifysgol y Drindod Dewi Sant wedi sicrhau fod y pecyn wedi gynnwys ar yr ap croeso sydd ar gael i bob myfyriwr newydd. Rydym wedi cysylltu â'r Cynghorau Tref a Chymuned ar draws y sir ac yn parhau i gydweithio gyda'r sector Cymraeg i Oedolion wrth gyrraedd ein dysgwyr.

**Lansiwyd** mewn digwyddiad yn yr Atom ar yr 11 Rhagfyr, gyda'r Fforwm Strategol Sirol, Aelod Portffolio'r Gymraeg, a chasgliad o bobl sydd wedi symud i'r sir yn mynegi barn am ddefnyddioldeb y llyfryn. Gwnaed fideo o'r cyfraniadau yn ogystal ac fe'i osodwyd ar y cyfryngau cymdeithasol. Cafwyd sylw ar Radio Cymru ac ar BBC Cymru Fyw.

https://vimeo.com/309491785

## Astudiaeth Achos: Hyfforddi Arweinwyr Iaith newydd ac ysgogi digwyddiadau mewnol Cymraeg newydd

**Bwriad:** Cynyddu capasiti mewnol i wirio cydymffurfiaeth gyda'r Safonau. Defnyddiwyd hyfforddwr mewnol (Tîm Polisi a Phartneriaeth) eto i feithrin unigolion brwdfrydig a fyddai'n deall pwrpas a chynnwys y Safonau ac yn hyderus i gynnig cyngor i eraill o fewn eu gweithle ar eu gweithrediad. O ganlyniad i frwdfrydedd criw bach o Arweinwyr Iaith newydd o'r hyfforddiant hwn, cafwyd digwyddiadau ychwanegol a oedd yn tynnu sylw i'r Safonau ac i'r Gymraeg yn gyffredinol o fewn y gweithle.

**Safonau:**

Mae prosiect ymestyn yr Arweinwyr Iaith yn mynd i gael effaith ar weithrediad yr holl Safonau cyflenwi gwasanaethau o fewn yr adrannau perthnasol ac ar yr un pryd yn cynyddu defnydd y Gymraeg yn y gweithle yn unol â'r Safonau gweithredu ac yn hyrwyddo'r Gymraeg fel cyfraniad mewnol i'r Safonau hybu a'r Strategaeth hybu.

**Y Broses a'r Amserlen:**


- Cynhaliwyd hyfforddiant Arweinwyr Iaith i 14 aelod o staff yn ystod Tachwedd/Rhagfyr 2018. Mynychodd 10 unigolyn o'r Gwasanaethau Plant a 4 o'r Adran Amgylchedd i ychwanegu at y criw o'r adran Amgylchedd a hyfforddwyd dwy flynedd yn ôl.
- Cynhaliwyd 4 sesiwn hanner diwrnod o hyd ac fe gynhaliwyd y 4 sesiwn ddwywaith, unwaith yng Nghaerfyrddin ac unwaith yn Llanelli ac roedd modd dewis cyfuniad o leoliadau yn ôl cyfleustra. Cynhaliwyd rhai o'r sesiynau'n Gymraeg a rhai yn ddwyieithog yn unol â gwneuthuriad y grwpiau unigol.
- Yn dilyn yr hyfforddiant yma, daeth Arweinwyr Iaith Adran yr Amgylchedd at ei gilydd i drefnu digwyddiadau cwrdd a chyfarch er mwyn codi ymwybyddiaeth o bresenoldeb yr Arweinwyr Iaith o fewn yr Adran ac er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg ar yr un pryd. Cynhaliwyd sesiynau galw-i-mewn mewn 3 lleoliad gwahanol, mewn adeiladau lle mae staff yr Adran wedi eu sefydlu, sef Stryd Spilman ar Chwefror 11, Depo Cillefwr ar Chwefror 22
- Yr olaf o'r tri digwyddiad oedd dathliad Gŵyl Dewi ym Mharc Myrddin, Caerfyrddin eto yn lleoliad lle mae nifer o staff Adran yr Amgylchedd yn gweithio
- Crëwyd 'Cornel Cymraeg' yng nghylchlythyr Adran yr Amgylchedd a rhoddwyd sylw i'r Arweinwyr Iaith newydd yno. Lluniwyd y cynnwys gan un o'r Arweinwyr Iaith newydd

**Llwyddiannau**:

Yr Hyfforddiant: Roedd 100% o'r staff a fynychodd yr hyfforddiant yn nodi eu bod yn hyderus iawn neu'n weddol hyderus gyda phob amcan dysgu yn dilyn yr hyfforddiant.

Y gweithgarwch a ddeilliodd o'r hyfforddiant: Roedd y sesiynau cwrdd a chyfarch yn cyflawni nifer o nodau'r Arweinwyr Iaith a'r Cyngor ar yr un pryd. Wrth godi ymwybyddiaeth o'r Arweinwyr Iaith, roedd hefyd yn gyfle i hyrwyddo gwersi Cymraeg, y Safonau a'r cymorth i ddefnyddio'r Gymraeg ar y fewnrwyd. Ond, ar yr un pryd, roedd yn ei hanfod yn gyfle i gynyddu defnydd anffurfiol y Gymraeg yn y gweithle, yn codi statws y Gymraeg yn gyffredinol yn yr Adran, ac yn gyfle i ddathlu Gŵyl Dewi yn fewnol.


**Sylw ar y fewnrwyd:**




Dangoswyd y fideo hwn o'r digwyddiad ar y fewnrwyd.

https://vimeo.com/323699677

Paratôdd un o'r Arweinwyr Iaith Adroddiad **Adborth** a oedd yn crynhoi sylwadau ac awgrymiadau mynychwyr y digwyddiadau. Roedd yr adborth yn hynod o gadarnhaol ac yn cynnig nifer o syniadau newydd ar gyfer digwyddiadau tebyg yn y dyfodol:



Sylw i'r Arweinwyr Iaith newydd yng nghylchlythyr yr Adran Amgylchedd

## CORNEL CYMRAEG

**Arweinwyr Iaith Cymraeg Newydd:**

Llongyfarchiadau i Meirion, David, Poppy a Kelly am gwblhau'r Cwrs Arweinwyr Iaith!






**Safonau'r Iaith Gymraeg:**

Prif egwyddor y Safonau yw na fyddwn yn trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau a gweithredu o ddydd i ddydd.

## Astudiaeth Achos: Gwasanaeth Ffrydio cerddoriaeth

**Bwriad**: Creu awyrgylch naturiol ddwyieithog yn ein hadeiladau cyhoeddus a sicrhau bod ein pobl ifanc yn gweld cerddoriaeth gyfoes Gymraeg ochr yn ochr â cherddoriaeth Saesneg ac yn gweld y Gymraeg yn berthnasol i'w bywyd hamdden yn ogystal â bywyd addysgol.

Yn dilyn ymdrechion 2017-18 i gynnal rhai oriau o gerddoriaeth Cymraeg yn ddyddiol drwy ddefnyddio ffrwd *Apton*, penderfynwyd ymestyn a chadarnhau'r prosiect drwy ddefnyddio ffrwd newydd, benodol ar gyfer Cyngor Sir Gâr. Byddai comisiynu cwmni lleol i ddarparu ffrwd cerddoriaeth ddwyieithog yn sicrhau cerddoriaeth Gymraeg cyson ac o ansawdd, a digon o amrywiaeth cerddorol i bara dyddiau hir y lleoliadau.

**Safonau a nod Strategaeth Hybu**:

Mae'r prosiect hwn yn gorgyffwrdd rhwng y Safonau *gweithredu* a'r safonau *cyflenwi gwasanaeth*au am ei fod yn effeithio ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gweithle yn ogystal ag yn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd sy'n trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Fodd bynnag, mae'n mynd gam ymhellach na'r hyn y mae'r Safonau yn galw amdano ac yn cyfrannu yn ogystal i'r Strategaeth hybu, drwy;

ii. Cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg ac felly ddefnydd y Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd...

**Y Broses a'r Amserlen**:

- Cytunwyd ar gyllideb y prosiect yn ystod **Awst 2018**. Comisiynwyd cwmni i ddarparu'r gwaith.
- Yn ystod mis **Medi**, deliwyd gyda'r heriau technegol a digidol yng Nghanolfan hamdden Caerfyrddin, (adran TGCh y Cyngor a chwmni Stiwdiobox). Gosodwyd blychau, *Barix Streaming boxes,* ymhob lleoliad a sicrhawyd cydnawsedd gyda'r cyfarpar technegol presennol.
- Rhwng **Hydref a Rhagfyr**, gosodwyd y blychau yn y lleoliadau presennol: Marchnadoedd Caerfyrddin a Llanelli, Canolfannau Hamdden Llanelli, Rhydaman, Castellnewydd Emlyn a San Clêr, Yr Hwb Llanelli a Rhydaman, Theatr y Ffwrnes, gyda chysylltiad rhwydwaith newydd wedi ei osod yn y theatr er mwyn galluogi'r broses.
- Yn dilyn delio â materion technegol pellach fel cryfder sain y traciau Cymraeg o gymharu â'r Saesneg, erbyn **Chwefror 2019**, roedd y ffrwd cerddoriaeth ddwyieithog newydd i'w glywed yn y lleoliadau i gyd

**Llwyddiannau**:

Llwyddwyd i oresgyn cymhlethdodau technegol niferus drwy gydweithio cyson rhwng y cwmni Stiwdiobox ac isadran Technoleg Gwybodaeth y Cyngor. Llwyddwyd i ddelio gydag unrhyw ofidiau a gwrthwynebiadau gan fod y newid wedi denu peth adborth. Er enghraifft, roedd modd dangos rhestrau o ganeuon i unrhyw un oedd am weld pa mor aml roedd deunydd yn cael ei ailchwarae. Yn olaf, roedd modd cyfathrebu'n uniongyrchol gyda staff a chwsmeriaid lle'r oedd cwestiynau'n codi ac felly lleddfu unrhyw amheuon oedd yn codi. Rydym yn hapus iawn gyda'r ddarpariaeth newydd ac yn

rhagweld y bydd modd ei ddatblygu i'r dyfodol. Hoffwn er enghraifft annog defnydd busnesau sy'n defnyddio cerddoriaeth gefndirol i fanteisio ar y ddarpariaeth hefyd.

**Lansio:**

Lansiwyd y gwasanaeth ffrydio ar ei newydd wedd ar Ddydd Miwsig Cymru, 8 Chwefror 2019.


Newyddion / Y Cyngor yn lansio system ffrydio cerddoriaeth ddwyieithog

Y Cyngor yn lansio system ffrydio cerddoriaeth ddwyieithog

6 diwrnod yn ôl

Fel rhan o Ddydd Miwsig Cymru eleni sy'n cael ei gynnal ddydd Gwener, 8 Chwefror, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi lansio system ffrydio cerddoriaeth ddwyieithog newydd a fydd yn cael ei chwarae yn nifer o'i lefydd cyhoeddus.

Mae'r fenter wedi cael ei lansio yn dilyn cynllun peilot a gynhaliwyd y llynedd pan oedd miwsig Cymraeg yn cael ei chwarae ar adegau penodol o'r dydd yng nghanolfannau hamdden Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli.

Mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithio gyda Marc Griffiths o Stiwdio Box er mwyn creu ffrwd o gerddoriaeth Gymraeg a Saesneg a fydd yn cael ei chwarae mewn nifer o lefydd ledled y sir, gan gynnwys y marchnadoedd dan do yng Nghaerfyrddin a Llanelli; canolfannau hamdden yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Rhydaman; yn yr Hwb yn Llanelli a Rhydaman a hefyd yn Theatr y Ffwrnes yn Llanelli.

Nod Dydd Miwsig Cymru yw dathlu a rhannu cerddoriaeth Gymraeg.

Dywedodd y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth: "Trwy greu'r fenter gyffrous hon, rydym yn gobeithio y bydd pawb yn mwynhau cerddoriaeth sy'n adlewyrchu ein cymuned ddwyieithog yn Sir Gaerfyrddin drwy gydol y flwyddyn, boed yn y ganolfan hamdden, y theatr neu'n siopa yn ein marchnadoedd dan do. Mae wedi bod yn wych gweithio gyda chwmni lleol fel Stiwdio Box er mwyn gallu creu rhestr gerddoriaeth sy'n newid yn gyson. Gellir clywed y gerddoriaeth hon yn nifer o'n llecynnau cyhoeddus ledled y sir."

Dolenni Cysylltiedig

> Dydd Miwsig Cymru

# Cymerwch ran...

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch beth sy' 'mlaen drwy ddilyn Dydd Miwsig Cymru ar Facebook a Twitter neu drwy ymuno yn y sgwrs

#dyddmiwsigcymru

hwb Gofynnwch gwestiwn

Adborth

Rydym yn defnyddio cwcis i wneud y wefan hon yn fwy syml. Rwy'n deall Ynghylch cwcis